# Dileu elw - Crynodeb o weminar cinio a dysgu 19 Mawrth 2026

## 1. Cyflwyniad a throsolwg

Agorwyd y sesiwn gan Sarah Day, Arweinydd Uned Fusnes ADSS Cymru, gan groesawu pawb i'r drydedd weminar cinio a dysgu ar ddileu elw. Amlinellodd bwrpas y gweminarau hyn i:

- egluro’r cyfeiriad polisi cenedlaethol i ddileu elw preifat o ofal preswyl a gofal maeth i blant yng Nghymru
- mynd i'r afael â phryderon y sector, a godwyd mewn sesiynau cynharach
- canolbwyntio heddiw yn benodol ar g*yllid, cadw plant yn ganolog i'r gwaith, a rheoli ansicrwydd*

Ymhlith y siaradwyr oedd:

- **Gwilym Morris** – Ymgynghorydd ADSS Cymru
- **Karen Benjamin** – Pennaeth Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant (4Cs)
- **Johanna Harris a Charlie Darwin** – Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Powys
- **John Mitson** – Gofalwr maeth ym Mhowys

Pwysleisiodd Sarah nad cyllidebau dros blant yw ffocws yr agenda, ond gwella gofal a chanlyniadau.

## 2. Y cwestiynau arian (Gwilym Morris, ADSS Cymru)

### Cyd-destun

- Mae'r galw am leoliadau preswyl wedi bod yn cynyddu ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.
- Mae’r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi tynnu sylw at ddarpariaeth gyfyngedig, crynodiad y farchnad, a phryderon am lefelau elw a strwythurau dyled ymhlith darparwyr preifat.
- Mewn ymateb, cymeradwywyd **Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025**, gan roi terfyn ar elw preifat mewn gofal preswyl a gofal maeth i blant.

### Yr hyn y mae 'dileu elw' yn ei olygu

- Elw = arian sy'n weddill ar ôl talu'r holl gostau gofal.
- O dan y Ddeddf, *ni chaniateir echdynnu elw*.
- Gall darparwyr weithredu o dan *fodelau nid-er-elw yn unig*, lle mae'n rhaid ail-fuddsoddi unrhyw warged mewn gwasanaethau.

### A fydd hyn yn gwella cefnogaeth?

- **Manteision posibl**: darpariaeth wedi'i theilwra’n fwy, cynllunio cartrefi ar sail anghenion plant – nid bylchau yn y farchnad, a chryfhau gwasanaethau therapiwtig/camu i lawr.

- **Risgiau**: ansefydlogrwydd yn ystod y cyfnod pontio, bylchau o ran capasiti os nad ydynt yn cael eu rheoli'n ofalus.
- Mae awdurdodau lleol a phartneriaid cenedlaethol yn gweithio'n ddwys i sicrhau sefydlogrwydd a digon o gapasiti.

**A yw'r polisi’n ymwneud ag arbed arian?**

- Nac ydyw.
- Mae wedi'i fodelu ar *gyllid tebyg am debyg*, nid torri costau.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo buddsoddiad sylweddol, a adlewyrchir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**Beth sy'n digwydd nawr?**

- Mae awdurdodau lleol yn modelu’r galw ar gyfer y dyfodol, nifer y gwelyau sydd eu hangen, ac anghenion gofal maeth.
- Bydd capasiti newydd yn cael ei greu trwy:
    - ddarpariaeth sy’n cael ei adeiladu gan yr awdurdod lleol
    - ehangu darparwyr nid-er-elw
    - darparwyr sy’n creu elw, sy'n trosi i fod yn ddarparwyr nid-er-elw
    - cydweithredu rhanbarthol
- Pwyslais ar gyflenwi cynaliadwy, defnyddio asedau, profi modelau gofal newydd, a dysgu gan arfer gorau ledled Cymru.

## 3. Lleoliadau sefydlog (Karen Benjamin, 4Cs)

**Ymrwymiad i sefydlogrwydd**

- Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio dro ar ôl tro *nad oes unrhyw darfu ar* leoliadau presennol.
- Mae darparwyr, waeth beth yw eu model busnes yn y dyfodol, yn parhau i ymrwymo i gynnal sefydlogrwydd i blant sydd eisoes wedi cael eu lleoli.

**Cerrig milltir deddfwriaethol allweddol**

- **1 Ebrill 2026:** Ni all unrhyw leoliadau maethu, preswyl neu leoliadau diogel sy’n creu elw, gofrestru o’r newydd
- **1 Ebrill 2027:** Dechrau *cyfnod rheoli’r ffurfdroi*
    - Ni all asiantaethau maethu sy’n creu elw, gymeradwyo gofalwyr newydd
    - Ni all lleoliadau preswyl sy’n creu elw, gynyddu nifer y gwelyau
- **1 Ebrill 2030:** Nod nad oes angen lleoliadau gan ddarparwyr er elw ar awdurdodau lleol mwyach (ac eithrio trwy lwybrau cymeradwyaeth y gweinidogion)

**Effeithiau cyfredol**

- Mae darparwyr preswyl eisoes wedi dechrau cau ond cafodd hyn ei *gynllunio* i raddau helaeth, gydag arfer cydweithredol da ac i gyd-fynd â’r rheini sy’n symud ymlaen yn naturiol.
- Digwyddodd dau drawsnewidiad preswyl heb eu cynllunio ond gyda rhybudd estynedig.

- Bu’r ymadawiadau o ofal maeth yn bennaf drwy *gaffael elusennol*, sy’n diogelu’r capasiti.

**Risgiau o'n blaenau**

- Cynaliadwyedd busnes y darparwyr (colli buddsoddwyr, benthycwyr yn galw am ad-dalu benthyciadau).
- Gall lleihau nifer y lleoliadau orfodi darparwyr i gydgrynhoi cartrefi, gan arwain at symudiadau wedi'u cynllunio.
- Heriau cadw'r gweithlu wrth i 2030 agosáu.
- Risgiau yn ystod y cyfnod pontio sefydliadol o er elw i nid-er-elw.

**Lliniaru**

- Profwyd prosesau cau ar frys ac roeddent yn effeithiol.
- Offer cyfathrebu ar gyfer darparwyr, gofalwyr a phobl ifanc.
- Cynllunio gweithredol o du’r awdurdod lleol i greu lleoedd nid-er-elw.
- Ariannu sefydliad Cwmpas i gefnogi trawsnewidiadau o ran darparwyr.
- Cydlynu cryf ar lefel ymarfer rhwng gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol, swyddogion cyfrifol annibynnol a darparwyr.

## 4. Gwasanaeth maethu Cyngor Sir Powys (Joanna Harris a Charlie Darwin)

**Pam yr aeth Powys ati i weithredu**

- Dibyniaeth uchel ar leoliadau allanol (yn aml er elw)
- Cynnydd yn nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir
- Gostyngiad yn y garfan faethu fewnol
- Costau cynyddol am leoliadau cymhleth

**Fframwaith Maethu Powys (a gafodd ei lansio yn 2024)**

Mae’r fframwaith sydd wedi'i ariannu drwy fodel buddsoddi i arbed, gwerth £620k, gyda thargedau ad-dalu clir, yn cynnwys:

1. **Cynnydd mewn ffioedd a lwfansau**
    - Cyfraddau safonol wedi codi'n sylweddol
    - Cyfraddau arbenigol uwch ar gyfer lleoliadau rhieni a babi a lleoliadau cymhleth
2. **Datblygu gofalwyr maeth arbenigol**
    - Uwchsgilio i ofalu am blant y gallai fod angen gofal preswyl arnynt fel arall
    - Recriwtio gofalwyr arbenigol ar gyfer rhieni a babanod o'r garfan bresennol
3. **Gofalwyr adfyfyriol (brys)**
    - Gwarantu bod lleoedd ar gael am leoliadau brys
    - Lleihau trefniadau cost uchel y tu allan i oriau
4. **Ad-drefnu’r gwasanaeth maethu**
    - Timau gofalwyr prif ffrwd a gofalwyr cysylltiedig ar wahân
    - Gwella perfformiad, amseroedd asesu a chyfraddau cadw staff
5. **Gwell hyfforddiant a mewnbwn therapiwtig**
    - Ymarfer sy'n seiliedig ar drawma
    - Pecynnau cymorth pwrpasol i ofalwyr a phlant

- Llai o ymyrraeth ddiangen a dibyniaeth ar wasanaethau allanol

**Effaith**

- Gostyngiad sylweddol yn nifer y plant a gafodd eu lleoli allan o Gymru (o 47 i 22).
- Cynnydd sylweddol yn nifer y cymeradwyaethau: o 2 (2022) i 14 (yn y flwyddyn hyd yma).
- Gostyngiad yn yr asesiadau, o naw mis i lai na phedwar mis.
- Osgoi costau sylweddol trwy lai o gomisiynu gofal preswyl allanol.
- Gwell paru, llai o leoliadau brys, a mwy o blant yn aros yn agos at eu cartrefi.
- Plant yn camu i lawr yn llwyddiannus o ofal preswyl i ofal maeth neu gartref.

**Sleidiau**

Nid yw sleidiau ar gael i'w rhannu gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol. Os hoffech drafod gwaith Powys ymhellach, cysylltwch â Joanna Harris, Uwch Reolwr Comisiynu Strategol: joanna.harris@powys.gov.uk

## 5. Profiad byw gofalwr maeth ym Mhowys (John Mitson)

Rhannodd John y stori o ofalu am ddwy chwaer am fwy na degawd, a'r profiad o gefnogi'r plentyn iau trwy argyfyngau, lleoliadau preswyl, a'r camau i'w pharatoi i ddychwelyd adref.

**Myfyrdodau allweddol**

- Mae'r fframwaith maethu wedi trawsnewid cefnogaeth a morâl ymhlith gofalwyr maeth ym Mhowys.
- Mae'r grwpiau cymorth yn gadarnhaol erbyn hyn ac maent yn canolbwyntio ar atebion, ac yn cydweithredu.
- Mae hyfforddiant (gan gynnwys DDP, ymlyniad, a PACE) wedi gwella hyder ac ymarfer gofalwyr yn sylweddol.
- Mae ymlyniad cryf a chyson wedi bod yn hanfodol i gynnydd y plentyn.
- Cymorth cofleidiol gwell- Mae gweithiwr cymdeithasol, CP, timau ymyrraeth, ymarferwyr arbenigol, yn rhoi sefydlogrwydd ar gyfer dychwelyd adref.
- Mae'r person ifanc bellach wedi trefnu prentisiaeth, sy'n cefnogi ei nodau hirdymor.

Pwysleisiodd John ei gobaith newydd ar gyfer ei dyfodol a'i diolch am y gefnogaeth integredig ar draws yr awdurdod.

## 6. Holi ac Ateb

- Mae **gofalwyr cysylltiedig ym Mhowys** yn cael cyfleoedd hyfforddi a chefnogaeth gyfatebol; mae lwfansau ariannol yn wahanol ond gellir eu gwella ar sail anghenion.
- **Terfynau echdynnu elw**: o dan y Ddeddf, ni all cwmnïau wneud elw y gellir ei ddosbarthu; rhaid ail-fuddsoddi unrhyw warged.
- Mae **olrhain bwriadau darparwyr** yn cael ei gydlynu'n genedlaethol trwy 4Cs, gyda llawer o awdurdodau lleol yn dirprwyo sgyrsiau'n llawn.

- **Costau modelau nid-er-elw**:
    - Costau un tro i ailgofrestru neu ailstrwythuro
    - Rhai costau parhaus ychwanegol yn dibynnu ar fodel y sefydliad
    - Gwaith ar y gweill yn genedlaethol i asesu a symleiddio'r rhain

Ymatebion dilynol i gwestiynau heb eu hateb:

- **A oes data mapio cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr sy'n dangos y ddarpariaeth bresennol a'r bylchau i arwain awdurdodau lleol?**
  Mae rhywfaint o ddata mapio ar gael. Yng Nghymru, mae gan AGC fanylion am ddarpariaeth gofrestredig drwy ei chyfeiriadur gwasanaethau, felly mae golwg glir ar y ddarpariaeth sydd ar gael yng Nghymru. Mae gan Loegr ddata rheoleiddiol drwy Ofsted hefyd, er ei fod yn cael ei gyflwyno'n llai amlwg fel un map cynllunio. Yn ymarferol, nid yr her yw a yw data'n bodoli ond sut i'w gyfuno i ddeall ble mae'r ddarpariaeth wedi'i lleoli, pa fath ydyw, a faint ohono sydd ddim ar gael yn effeithiol oherwydd ei fod yn cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol Lloegr.

- **A yw'r -fframwaith dielw yn dal i ganiatáu cyflogau uchel i staff, ac a oes cap fel yr Addewid Cymru Gyfan ar gyfer staff asiantaeth?**
  Nid yw dielw yn golygu cyflog isel. Mae cyflogau yn gost rhedeg y gwasanaeth, felly cânt eu talu cyn cyfrifo unrhyw warged. Mae hynny'n golygu y gall sefydliadau ddewis talu staff uwch yn dda neu dalu gofalwyr ar gyfradd uwch nag awdurdodau lleol. Fel mae pethau'n sefyll, nid oes cap penodol o fewn fframwaith dielw Cymru sy'n debyg i Addewid Cymru Gyfan ar gyfer gwaith cymdeithasol asiantaeth. Byddai sefydliadau'n dal i weithredu o fewn eu trefniadau cyflog a llywodraethu eu hunain.

## 7. I gloi

Diolchodd Sarah Day i'r holl siaradwyr a phawb oedd yn bresennol. Cadarnhaodd:

- bydd y gweminarau yn parhau bob chwarter
- cynhelir y sesiwn nesaf **ddydd Llun 22 Mehefin** ac mi fydd yn canolbwyntio ar drawsnewid y farchnad a safbwyntiau darparwyr, a themâu fydd yn deillio o'r adborth a geir heddiw gan y rheini sydd yn bresennol
- Mae'r agenda dileu elw yn y pen draw yn ymwneud â gwella canlyniadau i blant, ac mae'r storïau a rhannwyd heddiw – yn enwedig gan Bowys a John, y gofalwr maeth – yn dangos yr hyn sy'n bosibl pan fydd systemau yn gweithio gyda'i gilydd

Anogwyd y rhai oedd yn bresennol i gysylltu ag ADSS Cymru i holi cwestiynau pellach: [removalofprofit@adss.cymru](mailto:removalofprofit@adss.cymru)